

Rhif: WG35286



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor

Hydref 2018

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ddogfen ymgynghori *Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu Treth Gyngor*. Ynndi roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ar y cynnig i gael gwared ar hawl awdurdodau lleol i geisio traddodi pobl i garchar am beidio â thalu treth gyngor.

Cynulleidfa

Awdurdodau lleol Cymru, grwpiau â diddordeb, asiantaethau cynghori ar ddyledion, asiantaethau gorfodi, unigolion sy'n talu treth gyngor neu sydd wedi cael profiad o ddyledion treth gyngor.

Gwybodaeth Bellach

Cangen Polisi Treth Gyngor

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost LGF1Consultations@gov.wales

Copïau Ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://beta.llyw.cymru/dileur-gosb-o-garchar-am-beidio-thalu-treth-gyngor>

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
Cynigion.....	4
Ymgysylltu	4
Trosolwg o'r Ymatebion	5
Crynodeb o'r Ymatebion.....	5

Cyflwyniad

Yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor er mwyn ei gwneud yn decach. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y gosb o garchar yn ymateb hen-ffasiwn ac anghymesur i fater dyled sifil, ac mae carcharu unigolion yn golygu cost ychwanegol sylweddol i'r pwrs cyhoeddus. Yn ein barn ni, nid yw gweithredu fel hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddyled i'r awdurdod lleol a gall gael canlyniadau pellgyrhaeddol i'r unigolion dan sylw a'u teuluoedd. Mae'r gosb yn bodoli fel dull o orfodi taliadau'r dreth gyngor gan bobl sydd â'r modd i dalu eu bil treth gyngor ond sydd ddim yn gwneud hynny neu'n gwrthod gwneud. Ni fwriedir i'r gosb gael ei defnyddio ar gyfer aelwydydd sydd heb fodd i dalu, ac nid yw i fod i gael ei defnyddio chwaith i gosbi pobl am beidio â thalu.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori *Dileu'r Gosb o Garchar am Beidio â Thalu'r Dreth Gyngor* ar wefan Llywodraeth Cymru ar 11 Mehefin 2018. Parhaodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos a daeth i ben ar 3 Medi 2018.

Cynigion

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n benodol ar y cwestiwn a ddylid cael gwared ar hawl awdurdodau lleol i geisio traddodi pobl i garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor. Anogwyd yr ymatebwyr i roi sylwadau i gefnogi eu barn.

Ymgysylltu

Yn ogystal â'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar y cyfryngau cymdeithasol, cafodd y ddogfen ei hanfon yn uniongyrchol drwy e-bost at randdeiliaid â diddordeb yn y materion a godwyd. Derbyniwyd 188 o ymatebion. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno'u safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur neu ar-lein, yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn ar gael isod. Ceir rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.

Gwahoddwyd pob ymatebwr i ofyn am gael bod yn ddiennw. Manteisiodd 84 o'r ymatebwyr ar hyn ac nid ydynt yn cael eu hadnabod yn unrhyw le yn y ddogfen.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad.

Trosolwg o'r Ymatebion

Crynodeb o'r Ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd sydd yn y ddogfen hon. Tynnir sylw at y prif themâu yn hytrach nag ymdrin â phob pwynt a godwyd gan y rhai a ymatebodd.

Cwestiwn 1:

A ydych yn cytuno y dylid dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu treth gyngor?

YDW / NAC YDW

Rhowch sylwadau ategol

1. O'r 188 a ymatebodd i'r ymgynghoriad, atebwyd y cwestiwn hwn gan 185 ohonynt. Roedd 156 o'r 185 (84%) yn cytuno y dylid dileu'r gosb o garchar. Fodd bynnag roedd 22 yn teimlo y dylid cyflwyno dulliau amgen o adfer dyledion petai'r gosb yn cael ei dileu.
2. Y dewis amgen arall a grybwyllwyd amlaf gan ymatebwyr unigol, yn ogystal â rhai sefydliadau, oedd rhyw fath o wasanaeth cymunedol. Roedd y rhai a awgrymodd hyn yn dweud y byddai'n ffordd fwy addas o fynd i'r afael â phroblem gwrthod talu, ac er y byddai'n gosb, byddai'n rhoi'r cyfle i dalu nôl i gymdeithas.
3. O'r rhai a oedd yn cytuno, roedd 40 ohonynt o'r farn fod y bygythiad o garchar yn effeithio'n anghymesur ar y rhai a oedd yn ennill llai ac a oedd, felly, yn fwy tebygol o gael problemau â dyledion yn y lle cyntaf.
4. Roedd 27 o'r rhai a ymatebodd yn teimlo bod carchar yn gosb amhriodol ar gyfer dyled sifil ac y dylid cadw'r gosb o garchar ar gyfer pobl sy'n cyflawni troseddau treisgar neu sy'n peri risg i'r gymuned mewn ffordd arall.
5. Cafwyd ymatebion gan 14 awdurdod lleol. O blith y rhain, roedd 11 yn cytuno mewn egwyddor â dileu'r gosb, ond roedd y rhan fwyaf hefyd yn gwrthwynebu'r syniad o'i dileu heb gyflwyno mesurau eraill i atal cynnydd yn y nifer fyddai'n mynd ati'n fwriadol i wrthod talu'r dreth gyngor.
6. O blith yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig, roedd 74% yn teimlo y byddai dileu'r gosb yn annog pobl eraill i beidio â thalu'r dreth gyngor, gan na fyddai dull ataliol effeithiol ar gael.

7. Roedd dau ymatebydd o'r farn y byddai'n annheg bod pobl sy'n talu'r dreth gyngor yn sybsideiddio'r rhai sy'n mynd ati'n fwriadol i beidio â thalu ac sy'n osgoi unrhyw ganlyniadau yn sgil hynny.
8. Roedd tri ymatebydd yn teimlo hefyd nad oedd y dulliau amgen ar gyfer adfer arian yn ddigon effeithiol i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion hirdymor neu wrthod bwriadol.

<i>Cwestiwn 2: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn?</i>
--

9. Roedd tri ymatebydd yn teimlo y dylai awdurdodau lleol gynnig mwy o gymorth i'r rhai sydd mewn dyled.
10. Roedd dau ymatebydd yn teimlo bod defnydd annheg yn cael ei wneud o asiantau gorfodi ac y dylid, fel cam nesaf, adolygu'r defnydd ohonynt gan awdurdodau lleol.
11. Awgrymodd un ymatebydd y dylid ôl-ddyddio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer pobl a allai brofi eu bod yn gymwys, gan mai dim ond pan fyddant yn cael trafferthion ariannol y bydd rhai aelwydydd yn gwneud cais am ostyngiad i'r dreth gyngor.
12. Roedd tri ymatebydd yn teimlo bod y system fudd-daliadau a'r dull o wneud cais am fudddaliadau yn cyfrannu at y broblem ac yn meddwl y dylid adolygu'r system.

Y Camau Nesaf

13. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion wrth benderfynu a ddylid deddfu i gael gwared ar y gosb o garchar fel dull o orfodi talu'r dreth gyngor.

Atodiad A

Rhestr o'r ymatebwyr a ddewisodd beidio â bod yn ddienw

Enw'r ymatebydd neu'r sefydliad
Neal Francis
Allan Norris
Pat Penketh
Hannah
Clover Winton-Polak
Neil Taylor
Philippa
Sandra Holliday
Ruth Rafferty
John Rowlands
Diane Paul
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint
Tony Wakeham
Llŷr Wilson-Price
Alan Hoskins
Kathleen Davies
Cyngor ar Bopeth Wreccsam
Richard Beswick
Steve Williams
Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful
D Finch
Veronika Brannovic
Marie James
Scott Price
R. Davies
Lesa Marshall

Diana Bellis
Cyngor ar Bopeth
Cyngor Cymuned Ynysybwl a Choed-y-Cwm
Celia Richardson
Howard Balmer
Cyngor ar Bopeth Ceredigion
Dilys Burrell
Angela D Richards
James Thomas
Kay Bailey
Kevin Thomas
Peter Frederick Gilbey
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Lindsay Brewis Rogers
Maurice Paddock
Alan Hoskins
SNAP Cymru
Joan Norman
Michael Brain
Michael Miles
Helen Heald
Juliet Morris
Deborah Davies
June Thompson
Peter Richards
Cyngor ar Bopeth Casnewydd
Adrian Price
Al Cartwright
Alannah Lewis
Pennysmart CIC
Dr J Kay Richmond

Cyng Ian Johnson
Patricia Lewis
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Tref Amwlch
Tenovus Cancer Care
Cyngor Sir Ynys Môn
WRAC (Welfare Rights Advisers Cymru)
Cyngor ar Bopeth Sir Gâr
Cyngor ar Bopeth Torfaen
Cyngor Gwynedd
The Institute of Money Advisers
Cyngor ar Bopeth Sir Benfro
Cyngor Dinas Casnewydd
Civil Enforcement Association
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot
Money Advice Trust
Welsh Revenues & Benefits Manager Group
Cyngor Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
PayPlan
Cyngor ar Bopeth Cymru
AdviceUK
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy